**Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal EOC 08-02(p3)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 12 Rhagfyr 2002 |
| **Amser:** | 9.00am |
| **Lleoliad:** | Committee Rooms 3 and 4 |
| **Teitl:** | Canlyniadau'r gwerthusiad o'r ymarfer recriwtio agored ar gyfer swyddi Gradd 7 |

## CANLYNIADAU'R GWERTHUSIAD O'R YMARFER RECRIWTIO AGORED AR GYFER SWYDDI GRADD 7

### Diben

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r gwerthusiad o'r cynllun recriwtio uchod i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

### Crynodeb

2. Gwerthuswyd y cynllun peilot gan gwmni annibynnol a derbyniwyd eu hadroddiad cyntaf ddechrau mis Tachwedd. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r canfyddiadau allweddol.

### Amseru

4. Bydd canlyniadau'r adroddiad hwn yn bwydo i'r strategaeth Recriwtio a Lleoli, y bwriedir iddo fod yn ei le erbyn 1 Ebrill 2003.

### Y cefndir

5. Cynhaliwyd y cynllun recriwtio agored ar gyfer Gradd 7 rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2002 fel cynllun peilot i helpu'r strategaeth recriwtio arfaethedig a ddeilliodd o adroddiad "Codi Pob Llais" gan Roger McKenzie, lle argymhellwyd bod pob swydd yn cael ei hysbysebu ac yn agored i gystadleuaeth.

6. Gofynnodd y gwerthuswyr i gyfweld â sampl o 4 ymgeisydd mewnol a 4 ymgeisydd mewnol o'r grwpiau canlynol:

- y rhai na fu'n llwyddiannus yn y broses ddidoli
- y rhai a fethodd yn y Ganolfan Asesu
- y rhai na fu'n llwyddiannus yn y cyfweliad
- y rhai a fu'n llwyddiannus yn y cyfweliad

7. Dewiswyd y bobl hyn ar hap, ond yr oeddent wedi nodi yn ystod y broses ymgeisio eu bod yn fodlon

cymryd rhan yn y gwerthusiad. Gwnaethant hefyd gynnal cyfweliadau gyda nifer o ymgeiswyr a ddangosodd ddiddordeb yng nghamau cychwynnol y gwerthusiad. Gwnaeth y gwerthuswyr hefyd gyfweld â nifer o bobl eraill oedd â diddordeb neu oedd yn gysylltiedig â’r ymarfer, gan gynnwys yr Undeb, Swyddfa’r Llywydd, yr Uned Polisi Cyfartal, Tîm Cymorth y Prosiect, cynrychiolwyr o’r Bwrdd Prosiect a nifer o gynrychiolwyr cwsmeriaid a fu’n rhan o’r paneli fel Aelodau neu Gadeiryddion. Cynhaliwyd 33 o gyfweliadau.

**Y Sefyllfa Bresennol**

8. Cwblhawyd y gwerthusiad o'r cynllun Gradd 7 gan gwmni o seicolegwyr galwedigaethol annibynnol o'r enw Cassin-Scott Associates Ltd (CSAL). Mae CSAL wedi paratoi adroddiad interim o’i ganfyddiadau hyd yn hyn a gwnaeth nifer o argymhellion.

**Crynodeb o'r darganfyddiadau**

9. Daeth y gwerthuswyr i'r canlyniadau canlynol yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd ac a ystyriwyd ganddynt:

- Yr oedd y cynllun peilot yn lled llwyddiannus yn y ffaith bod amrywiaeth o ymgeiswyr wedi cael eu hasesu a gwnaethpwyd penderfyniadau yn ôl rhinwedd (cyn belled ag y gellir profi) drwy ddefnyddio cystadleuaeth deg ac agored.

- Cymeradwywyd y defnydd o ddulliau arbenigol (yn hytrach na rhai cyffredinol) mewn perthynas â recriwtio, cystadleuaeth agored a chymhwysedd, a chanolfannau asesu, gan yr aseswyr a'r ymgeiswyr.

- Nid oedd gwahaniaeth ym mherfformiad yr ymgeiswyr ar sail rhyw neu anabledd. Yr oedd yr enghreifftiau o'r iaith Gymraeg a lleiafrifoedd ethnig yn rhy fach i fedru barnu ond nid oedd tystiolaeth amlwg o wahaniaethu ar gael. Yr oedd yr ymgeiswyr mewnol yn llawer mwy llwyddiannus na'r ymgeiswyr allanol.

- Dioddefodd y Prosiect o ganlyniad i ddiffyg cynllunio yn ystod y camau cychwynnol, adnoddau annigonol yn yr adran bersonél a diffyg system meddalwedd recriwtio addas ond gwnaeth ymrwymiad pob un oedd yn gysylltiedig sicrhau bod y prosiect yn llwyddiannus. Dylai datblygu systemau safonol yn ystod y Peilot, ac ers y cynllun Peilot, sicrhau bod cynlluniau’r dyfodol yn effeithiol.

- Ymddengys bod y camau a reolwyd gan Dîm Cymorth y Prosiect (y broses ddidoli a chyfweld) wedi gweithio'n effeithiol ac maent wedi'u dogfennu'n dda er bod angen gwella'r hyfforddiant i aseswyr.

- Yr oedd y contract gyda darparwr y Ganolfan Asesu yn anodd i'w ddirnad gan felly achosi

problemau gyda chostio, rheoli data a rhannu gwybodaeth.

- Cafodd yr adborth a roddwyd i'r ymgeiswyr groeso.

- Dylai'r adran bersonél roi mwy o arweiniad wrth reoli'r paneli didoli a chyfweld ac mae angen hyfforddiant ac awdurdod arnynt i wneud hyn.

- Mae hwn yn gam cychwynnol da ond mae angen dealltwriaeth well o'r ymgeiswyr posibl er mwyn sicrhau ein bod yn denu ymgeiswyr amrywiol a nodweddiadol.

10. Mae'r gwerthuswyr wedi nodi rhestr o argymhellion, ac maent wedi eu hamgáu yn Atodiad A.

**Y Camau Nesaf**

11. Caiff canlyniadau'r gwerthusiad eu defnyddio i ddatblygu strategaeth recriwtio agored a rhagwelir y bydd hyn yn ei le erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

12. Bydd CSAL yn parhau â'r gwerthusiad hwn, a’r ail gam fydd gwerthuso effeithiolrwydd yr ymarfer recriwtio yn ôl y rhai a benodwyd i'r swyddi a'r canlyniadau cydnabyddedig.

**Cydymffurfio**

13. Nid oes materion yn ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb yn deillio o'r papur hwn.

**Themâu trawsbynciol**

14. Drwy weithredu cystadleuaeth agored mae'r Cynulliad yn dangos ei ymrwymiad i gyfle cyfartal.

**Camau i'w cymryd**

15. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r canlyniadau.

**Cyswllt - Kim Tester**

Atodiad A - Argymhellion adroddiad interim CSAL